# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.09.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Evie Morgan Jones, J.R. Jones

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:**
**Ar ran Albert Inn, Caernarfon:** Mr Howard Mitchell (Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig), Mr Peter Ashcroft (Cyfreithiwr ar ran Admiral Taverns Cyf) a Mr Harvey Nurse (Rheolwr Busnes Admiral Taverns Cyf)

**Ar ran yr Heddlu: :** Rhingyll Stephen Williams, Cwnstabl Andrew Jackson a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mrs Barbara Hughes

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen ac Eryl Jones-Williams a Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd)

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – ALBERT INN, 10 SEGONTIWM TERRACE, CAERNARFON**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Albert Inn, 10 Segontiwm Terrace, Caernarfon i wyro trwydded eiddo er ymestyn yr oriau i werthu alcohol rhwng 11.00 a 01.00 dydd Llun i ddydd Mercher, 11.00 – 02.00 dydd Iau i ddydd Sadwrn a 12.00 – 23.30 dydd Sul; cerddoriaeth fyw rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a 12.00 i 23.30 dydd Sul; cerddoriaeth wedi ei recordio rhwng 11.00 a 01.00 dydd Llun i ddydd Mercher, 11.00 – 02.00 dydd Iau i ddydd Sadwrn a 12.00 i 23.30 ddydd Sul, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 01.30 dydd Llun i ddydd Mercher, 11.00 i 2.30 dydd Iau i ddydd Sadwrn a 12.00 i 00.00 ddydd Sul. Gofynnir hefyd am oriau ychwanegol ar wyliau banc, noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan a'r Flwyddyn Newydd.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gwrthwynebiad chwaith gan y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Adran Safonau Masnach. Derbyniwyd llythyrau gan nifer o drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi’r cais, hysbysodd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ei fod yn rhedeg y dafarn ers oddeutu dwy flynedd a hanner. Cyfeiriodd at y ffaith mai ychydig iawn o broblemau a gafodd yn gysylltiedig â’r eiddo hyd yn hyn. Mewn perthynas â un digwyddiad y cyfeirir ato yn un o’r llythyrau’n sy’n gwrthwynebu’r cais, pan daflwyd potel i ardd yr eiddo drws nesaf gan berson meddw, fe waharddwyd y person hwnnw rhag defnyddio’r dafarn. Nododd mai prin iawn oedd yr achlysuron lle y bu’n ofynnol i alw’r heddlu. Cyfeiriodd at y ffaith bod gan y dafarn dimau dartiau, pŵl a dominos a gofynnwyd yn benodol am yr estyniad yn yr oriau oherwydd pan gynhelir twrneimant rhwng y gwahanol dimau, bydd rhai o’r gemau ar adegau yn tueddu i redeg yn hwyr. ‘Roedd nifer uchel o gwsmeriaid yn mynychu’r dafarn ar nos Sadwrn ac ymddiheurodd am y sŵn siarad/chwerthin uchel a ddeuai oddi yno, ond ‘roedd yn anodd cadw rheolaeth ar hynnny. Yn gyffredinol pobl leol sy’n mynychu’r dafarn a derbyniwyd cais gan rai ohonynt i ymestyn yr oriau. Cadarnhaodd nad oedd yn fwriad ganddo i werthu alcohol tan 02.00 ar benwythnosau, ond byddai’n rhoddi ychwaneg o amser iddo ef a’i staff i sicrhau bod y cyfan o’r cwsmeriaid wedi gadael. Mewn perthynas â cherddoriaeth yn y dafarn, hysbysodd nad oedd yn fwriad ganddo i gael bandiau roc yno ond yn hytrach triawdau, canu ysgafn a karaoke os bydd galw amdano. Gwaherddir pobl rhag mynd â photeli a gwydrau o’r dafarn a chyflogir person wrth y drws i sicrhau nad yw hynny’n digwydd. ‘Roedd yn fodlon clirio bonion sigarennau a adewir gan y cwsmeriaid tu allan i’r dafarn. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cyflogi staff ar y drws, cadarnhaodd nad oedd angen y ddarpariaeth yma ar wahân i wyliau banc.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams, y Cydlynydd Trwyddedu, i’r heddlu dderbyn un galwad ffôn yn cwyno’n uniongyrchol am yr eiddo hwn yn ystod 2010. ‘Roedd o’r farn nad yw hyn yn dystiolaeth ddigonol i wrthwynebu’r cais. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod gyda Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yr eiddo mae wedi cytuno i ddiwygio’r cais fel a ganlyn – *lle mae cyfeiriad at Nos Galan yn yr amseroedd ansafonol yn Adrannau E,F,H,I,J,K,M ac O o’r cais, bydd y gweithgareddau hyn yn gorffen dim hwyrach na 02.00.* Gofynnodd hefyd am i’r amod ganlynol gael ei gosod ar y drwydded –
“ Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy’n agored i’r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i’r toiledau). Dylid cadw recordiau TCC am 30 diwrnod a’u rhoddi i’r heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai’n bosibl cydymffurfio â’r cais ar y pryd, yna dylid mynd â’r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Caernarfon) cyn gynted ag y bo hynny’n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr”. Nododd bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cytuno i dderbyn yr amod hwn.

Yn absenoldeb y Swyddog Iechyd Amgylchedd adroddwyd bod y swyddog yn awyddus i amodau perthnasol parthed atal sŵn a.y. gael eu cynnwys ar y drwydded.

Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu’r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi’n benodol y pwyntiau canlynol –

- .Chwydu, ysbwriel a gadael bonion sigarennau tu allan i’w heiddo yn broblem ac yn digwydd yn aml.
- Gan ei bod yn byw drws nesaf i’r dafarn, ceir rhai o’r cwsmeriaid yn taflu poteli gwydr i’w gardd gefn. Yn ddiweddar bu’n rhaid iddi alw am yr heddlu oherwydd hyn.
- Sŵn yn dod o’r dafarn yn hwyr yn y nos ac yn enwedig ar benwythnosau ac ‘roedd hyn yn amharu ar fwynderau trigolion y tai cyfagos.

- Tacsis yn cyrraedd y dafarn yn hwyr yn y nos i nol cwsmeriaid ac yn hwtio tu allan i'w heiddo.
- Iaith anweddus gan rhai o'r cwsmeriaid a ddefnyddia'r ardd gwrw yn y cefn.

Ymatebodd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig i rai o'r pwyntiau uchod fel a ganlyn –

- Nid oedd wedi sylwi bod tacsis yn hwtio tu allan i'r dafarn yn hwyr yn y nos.
- Nid oes sicrwydd bod y chwydu ar y stryd tu allan i'r dafarn yn cael ei achosi gan y cwsmeriaid
- Nid yw'n bosibl iddo reoli'r sŵn yn y dafarn gan ei bod yn dafarn prysur, yn enwedig ar benwythnosau.
- Y byddai'n casglu'r ysbwriel a adewir tu allan i'r dafarn pe cyfyd yr angen am hynny.
- Y byddai'n fodlon derbyn yr amodau a argymhellir gan yr Adran Iechyd Amgylchedd.

Gadawodd y goruchwyliwr eiddo dynodedig a'i gyfreithiwr, rheolwr busnes y cwmni, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu a'r gwrthwynebydd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – fe alwyd yr heddlu i'r eiddo, ond nid oedd dim problemau arwyddocaol yno o safbwynt trosedd ac anrhefn. 'Roedd yr is-bwyllgor fodd bynnag yn siomedig nad oedd yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amod o gael staff drws yn bresennol ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn. Nid oedd gan yr heddlu unrhyw wrthwynebiad i'r cais yn unol â'r newidiadau 'roeddynt wedi awgrymu a bod hyn wedi ei gytuno gan yr ymgeisydd
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r amcan trwyddedu yma.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – cymerodd yr is-bwyllgor i ystyriaeth y byddai'r oriau ychwanegol y gofynnir amdanynt yn golygu agor am ddwy awr ychwanegol i'r amseroedd presennol, a olygai ar ddyddiau Iau i Sadwrn y byddai ar agor tan 02.30. Yn y cyswllt hwn cymerwyd i ystyriaeth bod lleoliad yr eiddo mewn ardal breswyl a ellid ei wahaniaethu oddiwrth eiddo eraill y dref sydd heb fod mor agos i ardal breswyl. Cymerwyd hefyd i ystyriaeth bryderon y trigolion cyfagos. O ganlyniad i'r dystiolaeth a gyflwynwyd, teimlwyd y byddai caniatau estyniad yn yr oriau yn achosi gormod o aflonyddwch ar drigolion cyfagos. Cydnabu dymuniad yr ymgeisydd i letya timau dartiau a pŵl a.y. ac y gallant ganiatau estyniad yn ystod yr wythnos. Nid oedd gan yr is-bwyllgor unrhyw wrthwynebiad i weithgareddau trwyddedig yn ddarostyngedig i'r amodau awgrymwyd a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drwydded.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth berthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Albert Inn, 10 Segontium Terrace, Caernarfon fel a ganlyn –**
**a) Yr oriau mae'r eiddo'n agored i'r cyhoedd (paragraff O) – dydd Llun i ddydd Mercher – 11.00 i 00.00awr.**
**b) Gwerthu alcohol (paragraff N) – dydd Llun i ddydd Mercher – 11.00 i 23.30 awr**
**c) Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F) – dydd Llun i ddydd Mercher – 11.00 i 23.30awr**
**ch) Cerddoriaeth fyw (paragraff E) – Rhywbeth o ddisgrifiad cyffelyb (paragraff H). Darparu cyfleusterau i gael cerddoriaeth (paragraff I). Darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J). Darparu cyfleusterau am adloniant o ddisgrifiad cyffelyb (paragraff K) - dydd Llun i ddydd Sadwrn – 11.00 i 23.30awr – dydd Sul 12.00 i 22.30 awr**
**d) Amseroedd ansafonol i bob gweithgaredd trwyddedig a ganiateir ac oriau agor yr eiddo – un awr ychwanegol ar Wyliau Banc, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, Nos Calan a Dydd Calan.**

**dd) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiadau TCC am 30 diwrnod a'u rhoddi i'r heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Caernarfon) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**
**e) I osod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd –**
**(A) Sŵn**
**i) Rhaid cadw lefel sŵn offerynnau cerdd a/neu systemau sain fel na ellir eu clywed tu fewn i unrhyw dŷ cyfagos (gyda ffenestri'r tŷ ar gau) yn ystod yr oriau canlynol;**
**a) Llun i Sadwrn – rhwng 23.00 yr hwyr a 07.30 y bore canlynol**
**b) Dydd Sul – rhwng 22.30 yr hwyr a 07.30 bore Llun**

**Ar bob achlysur arall, ni chaniateir lefel sŵn wedi ei fesur dros unrhyw gyfnod o 5 munud tu allan i dŷ cyfagos drwy ddefnyddio'r paramedr $L_{Aeq}$ gan fwy na 5dB(A) uwchlaw y lefel sŵn cefndir.**
**I bwrpas yr amod hwn, bydd y lefel sŵn cefndir i'w ddisgrifio drwy ddefnydd y paramedr $L_{A90,\,T}$ fel y diffinnir yn Safon Prydeinig 4141; 1997. Yn ogystal bydd unrhyw fesur i sefydlu lefel y sŵn mewn $L_{Aeq,\,5\ munud}$ hefyd i ddilyn canllawiau'r safon.**

**ii) Er mwyn arbed sŵn dirgrynant rhag dianc o'r eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad i'w cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1, bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ac amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell(oedd) lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn sydd wedi ei sefydlu fel uchafswm caniataeedig (gweler (iv) isod)**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni fydd drysau'r cyntedd i'w hagor ond i sicrhau mynediad neu ymadawiad o'r eiddo. Bydd staff i oruchwylio gan sicrhau bod y drysau'n cael eu cadw ar gau cyn belled ag sy'n bosibl tra byddai'r adloniant ymlaen.**
**vi) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22.00 – 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn cwrtil yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vii) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig, yn eu hannog i beidio â gweiddi.**
**(B) Goleuo**
**i) Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo i'w gosod mewn modd sy'n achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**ii) Ni fydd lleoliad y goleuadau allanol sy'n ymwneud â gweithgareddau o adloniant yn achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**iii) Nid fydd y goleuo allanol sy'n ymwneud â hysbysebu'r eiddo, adloniant neu weithgaredd yn ymwneud â'r eiddo i fod o gryfder allai achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**(C) Arogleuon annymunol**
**i) Nid yw arogleuon annymunol o'r eiddo i achosi niwsans i eiddo cyfagos. Bydd system awyriant ac echdynnant yn cael ei osod i arbed arogleuon annymunol a bydd system o'r**

**fath yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED HOLE IN THE WALL, CAERNARFON

**Ymgeisydd:** Rhingyll Stephen Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Cwnstabl Andrew Jackson a Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Hole in the Wall:** Mr Darren Jones (Daliwr y Drwydded), Mr Howard Mitchell (Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig Tros Dro), Mr Peter Ashcroft (Cyfreithiwr ar ran Admiral Taverns Cyf), Mr Harvey Nurse (Rheolwr Busnes Admiral Taverns Cyf) a Mr Keith Whitcroft

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Hole in the Wall, Caernarfon. Maent yn gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu osod amod ar y drwydded yn berthnasol i TCC a hefyd i leihau oriau'r gweithgareddau trwyddedig ynghyd â'r oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd o hanner awr bob dydd. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ac nid oedd sylwadau gan yr Adran Safonau Masnach.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Ar ran yr heddlu, hysbysodd y Rhingyll Stephen Williams y gofynnwyd am yr adolygiad yn wreiddiol yn dilyn digwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo yn ystod 2009 ac hyd at Mehefin 2010. Fodd bynnag gadawodd cyn oruchwyliwr eiddo dynodedig yr eiddo yng Ngorffennaf 2010. Tynnodd sylw y bu'n ofynnol ar 12 Awst 2010, pan yn cynnal ymweliadau trwyddedu yn y dref ac yn dilyn trafodaethau gydag Adran Drwyddedu'r Cyngor, i gau'r eiddo am oddeutu 24 awr oherwydd nad oedd goruchwyliwr eiddo dynodedig newydd wedi ei benodi ar gyfer yr eiddo. Yn ddiweddarach, penodwyd Mr Howard Mitchell, sy'n oruchwyliwr eiddo dynodedig yr Albert Inn, Caernarfon, yn oruchwyliwr eiddo dynodedig tros dro yr eiddo hwn. O ganlyniad i'r penodiad hwn, mae'r eiddo'n rhedeg yn ddi-drafferth ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y cyhoedd na thrigolion y tai cyfagos. Nododd bod Mr Darren Jones wedi ei benodi'n ddaliwr y drwydded. Gofynnodd am gael cynnwys yr amodau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, yn y drwydded, sef darpariaeth teledu cylch cyfyng a bod yr oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedig, ynghyd â'r oriau mae'r sefydliad ar agor i'r cyhoedd, yn cael eu lleihau hanner awr pob dydd.

Ymatebodd Rheolwr Busnes y Cwmni ar ran deilydd y drwydded i rai o'r pwyntiau a godwyd sef –

- Ei fod yn anfodlon iawn ynglyn â'r digwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo pan oedd y cyn oruchwyliwr eiddo dynodedig yno ac nad oedd yn ymwybodol am lawer o'r trafferthion a gafodd yr heddlu yn gysylltiedig â'r eiddo.
- Y penodwyd Mr Darren Jones, sy'n berson lleol, yn ddaliwr y drwydded gyda'r gobaith y byddai'n cael ei ddyrchafu'n oruchwyliwr eiddo dynodedig yr eiddo yn y dyfodol.
- Y gosodwyd teledu cylch cyfyng eisoes ar yr eiddo.
- Nid oedd yn fodlon lleihau'r oriau agor hanner awr y dydd gan ei fod yn bwysig i gael yr oriau masnachu arferol er cael y busnes yn hyfyw. 'Roedd yn cytuno i dderbyn yr amodau ynglyn â darparu teledu cylch cyfyng.

Mewn perthynas i gwestiwn gan aelod parthed lleihau'r oriau agor hanner awr y dydd, hysbysodd y Rhingyll Stephen Williams ymhellach y gofynnir am yr amod hwn oherwydd nad oedd gan ddaliwr y drwydded brofiad mewn rhedeg sefydliad o'r fath ac yn wyneb y digwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, byddai hyn yn rhoddi cyfle iddo gael yr eiddo yn ôl mewn trefn.

Gadawodd daliwr y drwydded, y goruchwyliwr eiddo dynodedig tros dro a'i gyfreithiwr, rheolwr busnes y cwmni, cynrychiolwyr yr Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn - cyflwynodd yr heddlu dystiolaeth o achlysur o drosedd ac anrhefn a hefyd y methiant i gyflwyno lluniau TCC i gynorthwyo eu harchwiliadau. Fodd bynnag, ers penodiad y goruchwyliwr eiddo newydd, nododd yr is-bwyllgor bod y problemau wedi peidio ac nad oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau pellach. Nodwyd hefyd bod y TCC wedi ei osod fel yn ofynnol gan yr heddlu.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r amcan trwyddedu yma.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – cyflwynwyd tystiolaeth gan yr heddlu o ddigwyddiadau yn yr eiddo a oedd wedi achosi aflonyddwch i drigolion cyfagos, gan gynnwys cerddoriaeth uchel a sŵn gan gwsmeriaid. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw broblemau ers penodi'r goruchwyliwr eiddo newydd.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

'Roedd yr aelodau o'r farn na ddylid lleihau oriau agor yr eiddo hanner awr y dydd oherwydd y dylid rhoddi cyfle i ddaliwr newydd y drwydded brofi ei fod yn gallu rhedeg y busnes yn ddi-drafferth. Cymerwyd i ystyriaeth nad oedd tystiolaeth o broblemau yn yr eiddo dan reolaeth newydd. Fodd bynnag, pwysleisiwyd ar ddeilydd y drwydded, pe byddai angen ystyried cais eto am adolygiad oherwydd amgylchiadau tebyg, byddai'r ffaith eu bod wedi cael cyfle i redeg yr eiddo'n briodol yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol –**
**a) Lluniau teledu cylch cyfyng digidol o bob man sydd ar agor i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynedfa/allanfa (heblaw tu fewn i'r toiledau).**
**b) Lluniau teledu cylch cyfyng i gael eu cadw am 31 diwrnod ac i'w rhoddi i'r heddlu, neu unrhyw awdurdod cyfrifol arall perthnasol, ar gais. Os na fyddai modd cydymffurfio ar y pryd, bydd angen mynd a'r lluniau perthnasol i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (Gorsaf Heddlu Caernarfon yn yr achos hwn) cyn gynted â bo hynny'n ymarferol ac o fewn 48 awr ym mhob achos.**
**c) Dylid cael nifer digonol o gamerau i sicrhau bod pob rhan o'r eiddo, heblaw am y toiledau, gan gynnwys y mannau tu allan lle gosodir cadeiriau a byrddau i drigolion eistedd, yn cael eu recordio.**

**ch) Dylid cael goleuadau digon llachar er mwyn gallu adnabod pobl sy'n mynychu'r eiddo.**
**d) Dylai'r holl offer gynnwys adnodd nodi amser/dyddiad cyson.**
**dd) Ei bod yn ofynnol i'r system allu lawrlwytho/copio'r holl luniau teledu cylch cyfyng sydd wedi eu storio, i gyfrwng arall h.y. bod modd eu chwarae'n ôl drwy gyfrifiadur sydd â Windows arno. Bydd niferoedd o staff yn gweithio sydd ar gael yn ystod oriau gwaith er mwyn lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu awdurdod awdurdodedig neu gyfrifol.**
**e) Dylai'r system teledu cylch cyfyng gael ei chynnal a'i chadw a'i gwasanaethu'n rheolaidd (bob 12 mis) gan y cwmni sydd wedi ei osod a dylid cynhyrchu llythyr o gydymffurfiaeth. Os oes nam ar y system, bydd angen i'r goruchwyliwr eiddo dynodedig neu daliwr y drwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedu ar unwaith a dylid gwneud trefniadau i atgyweirio'r system ar unwaith. Ni ddylid caniatau i unigolion anawdurdodedig gael mynediad i'r system nac i weld data personol gan y gallai fynd yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data neu beryglu unrhyw ymchwiliad troseddol. Gellid hefyd gweld hyn fel toriad difrifol o'r amod hwn. Gall swyddog awdurdodedig ofyn am gael gweld recordiad ar unrhyw adeg. Ystyrir methu â chydymffurfio â chais o'r fath yn doriad difrifol o'r amod hwn.**
**f) Nad yw'r oriau am ddigwyddiadau trwyddedig a'r oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd i'w cwtogi o hanner awr.**
**ff) Sicrhau y cedwir at y cynllun presennol a bod rheolwyr yn gwbl ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau tuag at y gymuned.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 12.00pm a daeth i ben am 2.15pm